# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3)-06-10 – Papur 9

**23 Chwefror 2010 Tystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r Ddraig Ffynci**

### Presennol

Melanie Blake – Rheolwr Datblygu Craidd
Victoria Madden –Y Ddraig Ffynci (Merthyr)
Jessica Simonds– Cynrychiolydd Cynghorau Ysgolion, y Ddraig Ffynci (Conwy)

### Aelodau'r Cynulliad

Helen Mary Jones (Cadeirydd)
Ann Jones

### Prif themâu

### Trafnidiaeth

Byw mewn ardal wledig a dim gwasanaeth bysiau ar gael i gyrraedd cyfleusterau chwarae.

Angen teithio i drefi gan nad oes cyfleusterau chwarae'n lleol.

Cost i ddefnyddio bysiau – yn 15 oed ystyrir bod pobl ifanc yn oedolion gan y cwmni bysiau, felly nid yw'n bosibl iddynt fforddio'r costau teithio a chost y gweithgareddau.

Nid yw amseriad y drafnidiaeth yn cyd-ddigwydd bob amser âg amseriad gweithgareddau, felly rhaid iddynt fod yn fwy hyblyg.

### Problemau rhwng y cenedlaethau

Parc sglefrio yn agos at glwb bowlio – mae angen ystyried mwy gofalus wrth osod cyfleusterau chwarae.

Byddai'n fuddiol ffurfio fforwm lle y gallai pobl ifanc a phobl hyn gyfathrebu â'i gilydd.

Mewn rhai cymunedau, mae pobl ifanc yn helpu pobl hyn ee i dorri glaswellt neu i siopa, ac mae hyn yn meithrin y berthynas rhwng y gynhedlaeth hyn a'r genhedlaeth iau ac yn lleihau llunio stereodeipiau. Dylid hwyluso hyn mewn mwy o ardaloedd.

### Problemau rhanbarthol/mewn ardaloedd gwledig

Mae mwy o gyfleusterau chwaraeon yn Ne Cymru.

Nodwyd bod polisi plismona mewn un ardal, sy'n gwahardd pobl ifanc rhag mynd allan mewn grwp o fwy na 3 gyda'i gilydd. Mae hyn yn cyfyngu ar eu chwarae/cymdeithasu ac mae'n llunio stereodeip o berson ifanc mewn grwpiau mawr.

### Rôl yr ysgolion

Bydd pobl ifanc yn treulio llawer o amser yn yr ysgol a byddent yn ffafrio cael cyfleusterau chwarae yn rhywle ar wahân i'r ysgol.

### Bwlio /goruchwyliaeth gan oedolion

Yn frwd iawn am oruchwyliaeth gan oedolion, oherwydd gall parciau fod yn fannau tiriogaethol iawn i bobl ifanc.

Llai o fwlio os oes oedolion yn bresennol.

Dylai lefel yr oruchwyliaeth fod yn briodol i faint y cyfleuster hy mae angen mwy nag un person i oruchwylio parc.

Mae angen monitro gofalus ar gyfleusterau chwarae oherwydd gall grwpiau o bobl ifanc dra-arglwyddiaethu felly mae goruchwylio rheolaidd yn angenrheidiol.

Mae'n bosibl i bobl ifanc gael hyfforddiant i oruchwylio, i weithredu fel patrwm ymddygiad i blant iau. Os byddai'r bobl ifanc yn gweld yr angen byddai'n bosibl iddynt basio gwybodaeth i weithiwr â gofal.

Mae pobl ifanc yn tueddu i ymddiried yn well yn eu cyfoedion - mae'n bosibl i'r oruchwyliaeth ymdebygu i gynllun cyfeillio sydd ar waith mewn rhai ysgolion.

**Ymgynghori**

Mae angen i awdurdodau lleol ymgynghori â phobl ifanc cyn cynllunio ble i adeiladu cyfleusterau chwarae.

Rhaid i gynghorau siarad â phobl ifanc a'u cynnwys trwy gydol y broses gynllunio. Rhaid gwrando ar lais pobl ifanc.

Y dymuniad yw cael rheol, fod yn rhaid ymgynghori â phobl ifanc a rhoi gwybod iddynt am benderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

**Prif argymhellion**

Gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth i gyfleusterau chwarae.

Creu man diddorol a chyffrous i bobl ifanc gynnull ynddo.

Creu cymhwyster ar gyfer pobl ifanc sy'n awyddus i ddysgu sut i gefnogi eu cyfoedion a dod yn batrwm ymddwyn. Gallai hyn ddod yn estyniad o'r cynllun cyfeillio sydd ar waith mewn rhai ysgolion.